**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 25ain Ebrill 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |

DIBEN YR ADRODDIAD:

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y penderfyniadau a gymerwyd gan y Prif Swyddog Tân yn dilyn ymgynghoriad â'r Cadeirydd ynghylch caniatáu ymestyn tâl salwch.

1. **YMESTYN TÂL SALWCH**

1.1 Ers y cyfarfod o'r Panel Gweithredol ar 31ain Ionawr 2005, caniatawyd pedwar estyniad i dâl salwch.

1.2

Mewn dau achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad ar 100% o dâl llawn am gyfnod o dri mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

Mewn un achos, roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad ar 100% o dâl llawn am gyfnod o dri mis, ac estyniad pellach ar 100% am dri mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

Mewn un achos roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad ar 100% o dâl llawn am gyfnod o chwe mis, ac estyniad o dâl ar 50% o dâl llawn am gyfnod o chwe mis, neu ddychwelyd i'r gwaith, p'un bynnag fyddai'n digwydd gyntaf.

1.3 Yn y cyfnod dan sylw, mae dau yn staff lifrai rhan amser a dau yn weithwyr lifrai llawn amser gyda'r Gwasanaeth.

2. **ARGYMHELLIAD**

2.1 Nodi'r adroddiad.